PROTOCOL ARFER GORAU TPC 4A

CYNRYCHIOLAETH BROFFESIYNOL

1. At ddibenion y protocol hwn cynrychiolydd proffesiynol, a elwir hefyd yn "asiant", yw:

- person sy'n derbyn tâl mewn unrhyw ffordd i gynrychioli parti mewn gwrandawiad, neu
- person, er nad yn derbyn tâl, a all fod yn aelod o gorff proffesiynol neu gymdeithas ac sydd, serch hynny, yn cynrychioli buddiannau parti. Gallai unigolyn o'r fath fod yn gyfreithiwr, syrfëwr neu arbenigwr cyfreithiol.

2. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i gynrychiolwyr proffesiynol fod yn gyfarwydd â'i harferion, rheolau a gweithdrefnau. Ar ben hynny, maent yn cynnal eu hunain yn unol â rheolau ac arferion eu sefydliad proffesiynol ac i drin aelodau a staff y Tribiwnlys gyda chwrteisi.

3. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i gynrychiolwyr proffesiynol i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd mewn perthynas â gwaredu neu drin apêl. Ni fydd achosion o gamymddwyn gan gynrychiolydd proffesiynol yn cael ei ganiatáu gan y Tribiwnlys. Yn yr un modd, bydd y Tribiwnlys yn gweld bai ar fethiant cynrychiolydd proffesiynol i gynnal a pharchu rheolau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys. Ceidw'r Tribiwnlys yr hawl i roi gwybod am achosion o natur amhroffesiynol i'r cyflogwr/cleient y cynrychiolydd, ac os oes angen i'w sefydliad proffesiynol. Nid yw'r Tribiwnlys yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gamau cyfreithiol neu ddisgyblu a allai ddigwydd o ganlyniad i gamymddwyn adroddwyd.

Gwisg

4. Disgwylir i gynrychiolwyr proffesiynol wisgo mewn modd ffurfiol a phroffesiynol. Dylid osgoi gwisgo bathodynnau neu arwyddluniau sy'n dynodi cysylltiad tuag at blaid wleidyddol neu glwb. Ni waherddir gwisgo pabi drwy gyfnod Dydd y Cofio.